Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

# Adolygiad o'r Fframwaith Taliadau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref:

# Ymgynghoriad ar Gynigion

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43210

**ADOLYGIAD O'R FFRAMWAITH CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR GYFER CYNGHORAU CYMUNED A THREF**

**Ymgynghoriad ar gynigion y Panel**

## 1. Cyflwyniad

Dechreuodd y Panel yr Adolygiad ym mis Ionawr ac ymrwymodd i weithio'n agos gyda'r sector er mwyn ystyried yr holl faterion a phryderon mewn perthynas â'r fframwaith presennol.

Mae'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol wedi datblygu'n gynyddrannol ers 2012 pan gafodd cynghorau cymuned a thref eu cynnwys yng nghylch gwaith statudol y Panel yn sgil y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru). Mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi gwneud gwaith ymgysylltu ac ymgynghori dros gyfnod o chwe mis, gan gynnwys cyfarfodydd ag Un Llais Cymru a Chymdeithas y Clercod Cynghorau Lleol. Fodd bynnag, fel rhan bwysig o'r broses, gwnaethom hefyd wahodd cynghorau cymuned a thref i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan. Cawsom ymateb ardderchog a wnaeth ein galluogi i sefydlu pedair sesiwn grŵp i drafod amrywiaeth o bynciau. Cawsom nifer o ymatebion ysgrifenedig gan y rhai na allant fod yn bresennol yn y sesiynau hyn hefyd.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau gan yr holl sefydliadau ac unigolion a gymerodd ran. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi ein helpu i ganolbwyntio ar y materion pwysig a dod i gasgliadau.

Nodir canlyniad yr ymgynghoriad a'r cynigion ar gyfer y dyfodol isod.

## 2. Canlyniad yr ymgynghoriad cychwynnol

Mae cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol o ran eu maint, eu swyddogaeth ac mewn llawer o ffyrdd diwylliannol. Deallwn y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad, sef nad yw “un ateb i bawb” yn briodol, ond mae'n bwysig cydnabod bod gan y 735 o gynghorau yr un sail statudol.

Rydym wedi cydnabod yr amrywiaeth yn y cynigion ar gyfer y dyfodol.

## 3. Cynigion

3.1 Grwpio neu gategoreiddio cynghorau

Yn 2018, sefydlodd y Panel dri grŵp i gydnabod y gwahaniaethau rhwng y 735 o gynghorau.

Mae'r Fframwaith presennol yn seiliedig ar incwm neu wariant ariannol yn unig (p'un bynnag sydd uchaf). Mae'r grwpiau fel a ganlyn:

A. £200,000 ac uwch
B. rhwng £30,000 a £199,000
C. Llai na £30,000

Dadleuodd sawl ymateb a gafwyd fod defnyddio cyllid fel yr unig ffactor ar gyfer categoreiddio grwpiau yn gyfyngol. Awgrymwyd sawl opsiwn amgen, gan gynnwys poblogaeth, nifer yr aelwydydd a'r lefel o weithgarwch. Roedd rhai o'r farn y dylid defnyddio nifer o ffactorau i bennu categorïau.

Rydym wedi ystyried ac archwilio'r opsiynau yn seiliedig ar yr adborth hwn. Mae defnyddio cyfuniad o ffactorau yn opsiwn deniadol, ond mae natur gymhleth yr opsiwn hwn a'r ffaith y byddai angen cael y wybodaeth ddiweddaraf yn golygu nad yw'n ymarferol.

Rydym o'r farn mai'r ateb tecaf yw categoreiddio grwpiau yn seiliedig ar faint etholaeth y Cyngor. Mae'r wybodaeth hon ar gael gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac mae'n ffactor a ddefnyddir gan y Comisiwn ar gyfer ei Adolygiadau hefyd.

Rydym yn cynnig sefydlu pum grŵp gan ddefnyddio maint etholaeth y cyngor fel y nodir yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1**

| | |
|---|---|
| **Grŵp 1** | **Etholaeth sy'n fwy na 14,000** |
| **Grŵp 2** | **Rhwng 10,000 a 13,999** |
| **Grŵp 3** | **Rhwng 5,000 a 9,999** |
| **Grŵp 4** | **Rhwng 1,000 a 4,999** |
| **Grŵp 5** | **Llai na 1,000** |

Yn ogystal, rydym yn cynnig defnyddio ail ffactor i bennu ym mha gategori y caiff pob cyngor ei osod. Pan fydd incwm neu wariant cyngor yn fwy na £200,000 y flwyddyn, caiff ei symud i fyny i'r Grŵp nesaf.

Rydym yn cynnig defnyddio pum grŵp er mwyn sicrhau bod y dull yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd newidiadau'n codi wrth ddatblygu cyngor neu garfan o gynghorau. Mae cael pum grŵp yn sicrhau bod hyblygrwydd i ymdopi â newidiadau o'r fath.

3.2 Lefelau Cydnabyddiaeth Ariannol

3.2(i) Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Cafwyd ymatebion ysgrifenedig a thrafodaethau amrywiol ynghylch y taliad presennol, sef £150 y flwyddyn.

Roedd rhai o'r farn na ddylid cael taliad o gwbl. Roedd eraill o'r farn ei fod yn annigonol ac nad yw'n cydnabod cost bod yn gynghorydd. Fel Panel, rydym hefyd yn credu bod yna faterion cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae'n bwysig bod pawb yn teimlo y gallant gymryd rhan mewn democratiaeth leol a chael eu grymuso i wneud hynny, ac na ddylai cost gwneud hynny (neu fethu ag ymdopi â chostau cyfranogi) atal pobl rhag cymryd rhan. Mae hyn yn unol â rhwymedigaethau i roi dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb, a ddaeth i rym ym mis Ebrill eleni, ar waith. Y prif fater a godwyd oedd y trethiant ar y swm cymharol fach hwn a'r anghyfleustra gweinyddol i aelodau unigol a'u cynghorau. Mae'r Panel yn deall y pryderon yn hyn o beth. Fodd bynnag, nid yw ein cylch gwaith yn cwmpasu materion treth. Gwyddom fod y mater hwn yn destun pryder i Lywodraeth Cymru hefyd ac mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt â CThEM. Mae'r Panel wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y trafodaethau hyn. Nodir y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r mater hwn ym mharagraff 3.2(v).

3.2(ii) Taliadau am ymgymryd ag Uwch-rolau:

Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch taliadau i aelodau sydd â chyfrifoldeb penodol. Roedd y rhain yn amrywio o ddim taliadau, ac eithrio i'r Maer neu'r Cadeirydd o bosibl, i roi taliadau uwch i bob aelod. Yn ddiddorol, nid oedd yr ymatebion a oedd yn cefnogi'r syniad o barhau i ddarparu taliadau am gyfrifoldebau wedi dod o blith y cynghorau mwy o faint yn unig.

3.2(iii) Taliadau am Golli Enillion:

Er mai ychydig iawn o daliadau a wnaed mewn perthynas â cholli enillion ers sawl blwyddyn, cafwyd cefnogaeth barhaus dros gynnwys taliadau o'r fath. Cydnabuwyd yn helaeth eu bod yn galluogi cynghorwyr i gyflawni eu dyletswyddau ac y gallant annog mwy o bobl o oedran gweithio i sefyll fel ymgeiswyr. Felly caiff y taliadau hyn eu cadw yn y Fframwaith a byddant yn parhau i gael eu gosod ar lefelau sydd o leiaf gyfwerth â'r Cyflog Byw yng Nghymru.

3.2(iv) Lwfans Mynychu:

Cafwyd sawl ymateb yn galw am ailddechrau'r lwfans mynychu gan ei fod yn opsiwn yn y Rheoliadau blaenorol cyn sefydlu'r Panel. Awgrymodd rhai y dylai'r lwfans hwn fod yn ychwanegol at y taliadau eraill, ac awgrymodd eraill y dylai fod yn opsiwn amgen. Mae'r Panel yn cynnig cynnwys opsiwn ar gyfer Lwfans Mynychu.

3.2(v) Trethiant:

Mae'r holl daliadau yn drethadwy a chaiff treth ei didynnu yn y tarddle drwy'r gyflogres. Fel y nodwyd, mae hwn yn destun pryder sylweddol nid yn unig i aelodau cynghorau cymuned ond hefyd i Lywodraeth Cymru, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i ailstrwythuro taliadau gyda'r nod o gael cytundeb gan CThEM i rai taliadau gael eu heithrio rhag treth. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y cynnig hwn pan ddeuir i'r canlyniad terfynol. Fel y nodwyd, nid yw'r mater hwn yn rhan o gylch gwaith y Panel.

3.2(vi) Teithio a Chynhaliaeth:

Cawsom adborth a nododd nad yw'r symiau sy'n daladwy am deithio wedi cynyddu ers blynyddoedd lawer. Maent yn seiliedig ar gyfraddau CThEM ar gyfer eithriadau rhag treth am deithio ar fusnes swyddogol a rhain yw'r symiau safonol ym mhob awdurdod perthnasol ac mewn llawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

3.2(viii) Cymorth ariannol ar gyfer costau gofal:

Eto, roedd safbwyntiau cymysg mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod y manteision i rai aelodau drwy eu

galluogi i gymryd mwy o ran ym musnes y cyngor. Cydnabuwyd hefyd y gallai cymorth o'r fath gyfrannu at gael mwy o amrywiaeth ymhlith aelodau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mynegodd y cynghorau lleiaf bryder na fyddai'r cymorth hwn yn fforddiadwy pe bai pob aelod yn ei hawlio. Nododd ychydig o ymatebwyr anawsterau o ran gweinyddu'r cymorth hwn yn lleol. Nododd sawl ymatebydd a oedd yn bryderus am oblygiadau o ran praesept a chyllidebu pan wnaed y ddarpariaeth yn orfodol i ddechrau nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau. Fel Panel, rydym yn cydnabod y gall cyfrifoldebau gofal a chostau gofal gyfyngu ar gyfranogiad, neu ei alluogi, a chefnogi cydraddoldeb a chynhwysiant gan arwain at fwy o gynrychiolaeth ac amrywiaeth yn ein democratiaeth leol. Cynigir cadw'r cymorth hwn ar ei ffurf bresennol.

**4. Crynodeb o'r Cynigion**

1. Taliad sylfaenol i bob aelod o'r cyngor a gaiff ei ailstrwythuro er mwyn cyd-fynd â'r posibilrwydd y ceir cytundeb â CThEM ar gyfer eithriad rhag treth.
2. Bydd taliadau i aelodau sy'n ymgymryd â rôl sydd â chyfrifoldeb ychwanegol yn parhau i fod yn rhan o'r Fframwaith ar y sail a nodir yn Nhabl 2.
3. Gellir talu lwfans mynychu i aelodau am fynychu busnes cymeradwy'r cyngor. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau a nodir yn 1 a 2 uchod.
4. Cedwir taliadau am golli enillion fel rhan o'r Fframwaith.
5. Ni fydd taliadau mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth yn newid.
6. Ni fydd cyfraniadau tuag at gostau gofal a chymorth personol yn newid.

Mae Tabl 2 yn nodi'r strwythur arfaethedig ar gyfer taliadau a lwfansau.

Mae'r rhain yn briodol i bob un o'r pum Grŵp.

**Tabl 2**

**Cymhwyso'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol yn ôl Grŵp perthnasol**

| **Grŵp 1 (Etholaeth >14,000)** | |
|---|---|
| Taliad Sylfaenol | Gorfodol i bob aelod |
| Taliad am Uwch-rôl | Gorfodol i un aelod; dewisol i hyd at saith aelod |
| Lwfans Mynychu | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |

| | |
|---|---|
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |
| **Grŵp 2 (Etholaeth rhwng 10,000 a 13,999)** | |
| Taliad Sylfaenol | Gorfodol i bob aelod |
| Taliad am Uwch-rôl | Gorfodol i un aelod; dewisol i hyd at bum aelod |
| Lwfans Mynychu | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |
| **Grŵp 3 (Etholaeth rhwng 5,000 a 9,999)** | |
| Taliad Sylfaenol | Gorfodol i bob aelod |
| Taliad am Uwch-rôl | Dewisol i hyd at dri aelod |
| Lwfans Mynychu | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |
| **Grŵp 4 (Etholaeth rhwng 1,000 a 4,999)** | |
| Taliad Sylfaenol | Gorfodol i bob aelod |
| Taliad am Uwch-rôl | Dewisol i hyd at dri aelod |
| Lwfans Mynychu | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |
| **Grŵp 5 (Etholaeth >1,000)** | |
| Taliad Sylfaenol | Dewisol |
| Taliad am Uwch-rôl | Dewisol |
| Lwfans Mynychu | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |

**5.** Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r diwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Caiff y symiau penodol mewn perthynas â phob elfen eu pennu yn Adroddiad Blynyddol nesaf y Panel. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno unrhyw sylwadau neu arsylwadau ar y cynigion i'r Ysgrifenyddiaeth erbyn 27 Awst 2021.

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**